

Sut i wneud cacen i adar

Gallwch roi llawer o wahanol bethau mewn cacen adar, ond rhaid ichi gynnwys siwed neu lard er mwyn iddi galedu. Os ydych yn defnyddio siwed, mae siwed cig yn well na siwed llysiau.

Pwysig: Mae angen cynhesu a thoddi'r siwed neu'r lard cyn ei ddefnyddio i wneud cacen i adar. Gwnewch yn siŵr fod gennych ddigon o amser a gofynnwch i oedolyn eich helpu i wneud hyn.



Cynhwysion

Dyma rai o'r llawer o gynhwysion y gallwch eu defnyddio i wneud cacen i adar:

- Hadau adar gwyllt
- Rhesins
- Llugaeron
- Ffrwyth, e.e. grawnwin, afal (wedi'i dorri'n ddarnau bach)
- Blawd ceirch
- Briwsion bara
- Crofen cig moch
- Caws
- Cnau mwnci y gall pobl eu bwyta (ni ddylid eu defnyddio os oes gan unrhyw ddisgyblion alergedd i gnau)

Cynwysyddion

Gallwch roi cymysgedd cacen adar mewn llawer o wahanol gynwysyddion i'w hongian yn yr ardd. Dyma rai awgrymiadau:

- Potyn iogwrt
- Cragen cneuen goco
- Hen gynhwysydd bwyd
- Boncyff ysgafn gwag
- Croen hanner oren/grawnffrwyth
- Cwpan blastig
- Moch coed
- Hanner pêl dennis

Rhaid bod llinyn yn sownd yn y cynhwysydd er mwyn ichi allu ei hongian!

Beth i'w wneud

- 1) Rhowch yr holl gynhwysion mewn powlen a'u cymysgu.
- 2) Tywalltwch y siwed neu'r lard cynnes dros y cymysgedd a'i gymysgu'n dda. (Dylai hanner y bowlaid fod yn gynhwysion a'r hanner arall yn siwed neu lard).
- 3) Nawr mae'r gacen yn barod i gael ei thywallt i mewn i'r cynhwysydd rydych chi wedi ei ddewis.
- 4) Rhowch y cynhwysydd yn yr oergell dros nos er mwyn i'r gacen galedu. Y diwrnod wedyn, bydd yn barod i'w rhoi allan i'r adar.
- 5) Ni ddylid aildefnyddio'r cynwysyddion. Bydd angen cael gwared arnyn nhw'n ofalus pan fyddant yn wag.

Os yw bywyd gwyllt yn bwysig i chi, mae'n syniad da darparu bwyd glân a dŵr ffres ar hyd y flwyddyn. Gall bwyd cyson olygu bod adar yn aros yn fyw. Mae hyn yn arbennig o wir am gywion bach yn y gwanwyn. Mae angen glanhau cynwysyddion bob dydd, a chael gwared ar hen fwyd er mwyn rhwystro clefydau rhag lledaenu. Gall rhesins fod yn beryglus i anifeiliaid fel cŵn, felly dylech fwydo adar i fyny oddi ar y ddaear a gwneud yn siŵr eich bod yn cael gwared ar unrhyw fwyd sydd heb ei fwyta ac wedi disgyn i'r llawr.